# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 7fed 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris.

<u>i) Croesawu'r cynghorwyr.</u>
Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Yn dilyn eu phrofedigaethau diweddar, cydymdeimlwyd a Gwenda Morris ac Eifion Davies. Llongyfarchwyd Bethan Thomas ar benblwydd phriodas arbennig.

<u>ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</u>
Etholwyd Dewi Pritchard yn gadeirydd a Alwyn Jones yn is-gadeirydd.

<u>iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Rita Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

<u>iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol roedd y Clerc wedi ei baratoi.

<u>v) Cyfrifon 2023-24.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

<u>vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd</u>.
Cytunwyd i gadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer 2024-25.

<u>viii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2024-25.</u>
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

<u>ix) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr asedau. Roedd Noel Lloyd wedi atgyweirio'r ddwy fainc yn Llanfor ac wedi ei dychwelyd i'w safleoedd a cytunwyd i'w ychwanegu i'r rhestr.Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws a'r asedau eraill ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf.

<u>x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Rheolau Ariannol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad:……………………..